



Capel y Traeth ar Waith

www.capelytraeth.com

Rhif 128

Cyhoeddi

Awst 2022

07	Parch Ioan W. Griffith	H.V.H.	Gwenan Williams
14	Parch Richard Lewis	A.R.	Nell Davies Hughes
21	Ann Lewis	G.P.	Elisabeth Bebb
28	Dafydd Iwan	D.R.J.	Adran Saesneg

02	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
09	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
16	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
23	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
30	Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30

Diolch o Dad am dymor yr Haf

Gwerthfawrognw las y nen heb gwmwl du, a chyfle i synfyfrio'n hir dan wenau'r haul.

Diolch am y wefr o weld awelon haf yn cribo gwallt yr haidd yn donnau byw.

Diolch am y cynnwrf braf a ddaw pan fo pelydrau'r haul ar aur yr yd yn dallu pawb wrth syllu arnynt yn rhy hir.

Diolch am fae a phorth a'i dywod melyn i ymlonyddu yn ei wres.

Cofion Anfonwn ein cofion cynhesaf at bob un ohonoch gan gofio yn arbennig at Mr Ariel Evans, Mr Eryl Edwards a Mr Emyr Evans y tri wedi derbyn llawdriniaeth yn ystod y mis diwethaf. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn gobeithio eich gweld yn ôl yn y pethau yn fuan iawn. Rwy'n siwr ein bod hefyd yn meddwl am Mr Michael Sheeratt, ysgrifennydd yr Adran Saesneg. Bu farw ei wraig Linda ganol Gorffennaf. Gobeithio eich bod chi i gyd wedi gallu dygymod efo'r cyfnod o wres eithriadol a gawsom yn ddiweddar. Roedd yn amhosibl gwneud dim yndo yn doedd!

Banc Bwyd Diolch unwaith eto am eich cyfraniadau hael i'r Banc Bwyd. Mewn ebost a ddaeth i law yn diolch i ni yng Nghapel y Traeth, roedd yn sôn fel mae'r cyfraniadau maent yn ei gael wedi lleihau ond bod cynnydd mawr yn y gofyn am gymorth. Roeddent yn dweud hefyd eu bod yn brin o rai nwyddau megis llefrith UHT, jam, bisgedi a shampŵ. Diolch i Elsbeth Gwynne am ddanfon y nwyddau i Bwllheli y tro hwn.

Drws Agored Pleser yw cael croesawu selogion y Drws Agored bob bore Mawrth. Ddechrau'r mis daeth nifer fach o ddysgwyr atom er mwyn cael sgwrs yn y Gymraeg. Braf oedd gweld rhyw ddimensiwn arall i'r boreau yma. Cofiwch bod croeso i unrhyw un droi mewn am banded.

Er cof am Mrs Elizabeth Owen, Lôn Dinas Fe gofiwch rwy'n siwr am garedigrwydd merched y diweddar Elizabeth Owen yn rhoi rhodd o £500 i'r Clwb Sul er cof am eu Mam. Gan fod gardd y capel bellach yn weddol wastad a'r gwellt yn cael ei dorri yn rheolaidd, penderfynodd y rhieni brynu bwrdd a meinciau gyda'r arian, at ddefnydd y Clwb Sul. Bwriedi'r rhoi plac bach ar y bwrdd i cofnodi y rhodd.



Diolch 

Hoffem ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth. Mae eich cyfraniadau yn ein galluogi i barhau i ddarparu ar gyfer teuluoedd sydd mewn angen yn ein hardal.

"Baby-basics"


Dyffryn Clwyd

 babybasicsdyffrynclwyd@gmail.com

 @babybasicsdyffrynclwyd

 07712641447

 Os am gyfrannu yn ariannol dilynwch y linc

Baby Basics Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at yr Apêl yma. Gwelwch isod air o werthfawrogiad ddaeth i law yn dilyn derbyn y nwyddau'n ddiweddar.



Annwyl Gyfeillion,

A chyrrhaeddodd Awst unwaith eto – mis y Steddod a mis y gwyliau. Ond wrth gwrs yr oedd mis Gorffennaf yn fis y Sioe Amaethyddol, a diolch am y bwrlwm yn Llanelwedd. Edrychwn ymlaen at ddechrau Awst pan fydd y Steddod yn Nhregaron, a dymunwn yn dda i bawb fydd naill ai'n cystadlu yno neu jest yn mynd yno i werthfawrogi'r diwylliant Cymraeg ar ei orau neu'n gwyllo a gwrando adref, gan gofio, wrth gwrs mai'n tro ni yn Llŷn ac Eifionydd fydd gwadd yr Ŵyl yn 2023, a bydd, mi fydd 'na baratoi manwl wedi'r haf yma ar ei chyfer.

Do, fe ddaeth y Covid i'n tŷ ni yn ystod dechrau Gorffennaf, fel ag y mae wedi dod i sawl aelwyd, gwaetha'r modd, ac nid rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn mohono o gwbl – mae'n beryglus. Carwn yma ddiolch o waelod calon am yr ymholiadau a'r caredigrwydd a gawsom – gwerthfawrogwn y cwbl. Erbyn hyn, diolch i Dduw, daethom dros y gwaethaf, ond rhaid dweud ein bod yn edrych ymlaen at ymlacio mymryn ym mis Awst. A does dim byd o'i le ar hynny, oherwydd mae disgyblion Iesu Grist angen ymlacio ymhob cyfnod, oherwydd mae'r gwir ymlacio yn ein paratoi i ddod yn ôl i weithio.

Felly bendith ar bawb yn ystod Awst.

Iwan

Y Clwb Sul Cawsom benwythnos ardderchog a thywydd bendigedig yn carafanio a gweryslla yn Sarn Bach yr ail benwythnos ym mis Gorffennaf. Roedd rhai hefyd wedi dod atom am y diwrnod. Braff oedd cael cwmni rhai o'r Clwb leuenctid hefyd. Buom yn chwarae gemau, nofio a hyd yn oed yn gwyllo ffilm yn yr awyr agored. Hyfryd oedd cael cwmni rhai o oedolion y Capel ar ein taith gerdded dydd Sadwrn. Roedd criw o 37 yn cychwyn ar y daith gerdded fer o Sarn Bach i lan y môr ym Machroes. Cawsom lawer iawn o hwyl yn nofio ac yn chwarae gemau ar lan y môr ac wrth gwrs hufen iâ cyn cerdded yn ôl i'r maes carafanau. Diolch Anti Elin am drefnu eto eleni.



Mwy o luniau ar y tudalen olaf.

Y maes carafanau gydag Uwch Mynydd ac Ynys Enlli yn y pellter. Y plant, rhieni a oedolion y capel yn barod am y daith i lan y môr Machroes.

